PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 158 Rhif 11 Mawrth 13, 2025 50c.

## Codi llais

Yn y rhifyn diwethaf o'r *Tyst* roedd erthygl rymus ar y dudalen flaen gan Alun Lenny yn esbonio'n glir fod Llywodraeth San Steffan wedi gwneud penderfyniadau yn ddiweddar fydd â chanlyniadau pellgyrhaeddol a hynny mewn dwy ffordd.

Yn gyntaf, bydd y llywodraeth yn cynyddu'r gwariant ar arfau a'r lluoedd arfog a hynny ar draul gwasanaethau eraill. Ond yn ail bydd toriad mawr ar y gyllideb ryngwladol sy'n golygu y bydd dioddefaint rhai o bobl fwyaf bregus dynoliaeth yn cynyddu.

Hoffem eich annog, fel darllenwyr *Y Tyst*, i fynegi eich gwrthwynebiad i hyn trwy anfon llythyr/ e-bost fel unigolion ac eglwysi i'ch aelod seneddol. Isod y mae templed o lythyr pwrpasol wedi ei lunio gan Arfon Jones. Os hoffech gael gafael ar gopi digidol cysylltwch gyda ni trwy tyst@annibynwyr.cymru



Ysgrifennaf atoch ar ran aelodau eglwys …

Rydym yn anfodlon iawn ac wedi'n tristáu'n fawr gan benderfyniad diweddar prif weinidog y DU i dorri cyllideb datblygu ryngwladol y DU i lawr i 0.3% o'r Incwm Gwladol Crynswth (GNI), toriad o tua £5.5 biliwn.

Credwn fod y gyllideb Cymorth Ryngwladol yn elfen hanfodol o gyfrifoldeb unrhyw genedl wâr i ofalu am y rhai hynny yn ein byd sy'n brin o fwyd a gofal iechyd digonol. Mae hefyd yn rhan annatod o'r frwydr yn erbyn canlyniadau newid yn yr hinsawdd ac yn bwysicach na dim yn yr ymdrech i sicrhau heddwch yn ein byd. Mae'r penderfyniad a wnaethpwyd gan y prif weinidog yn effeithio'n uniongyrchol ar filiynau o bobl sy'n byw mewn tlodi ledled ein byd.

Mae'r penderfyniad hwn nid yn unig yn niweidiol i'n cyd-ddyn, ond hefyd yn ddiffygiol yn strategol. Mae cymorth rhyngwladol gan y DU yn cryfhau iechyd pobl a diogelwch byd-eang. Dyma'r ffordd orau i wneud y byd yn lle mwy diogel i fyw ynddo. Bydd torri

*parhad ar dudalen 7*

## Dathlu deng mlynedd ar hugain

Yn ddiweddar cawsom ni eglwys Hope-Siloh a'n chwaer eglwys Bethesda, Llangennech, y cyfle i longyfarch ein gweinidog y Parchg Llywelyn Picton Jones wrth iddo ddathlu deng mlynedd ar hugain yn y weinidogaeth, Diolch yn fawr i aelodau Bethesda a Hope-Siloh am eu rhoddion caredig.







**Murluniau**

Bu'n fraint gallu gosod dau furlun lliwgar gan yr artist Rhys Jones yn ein hadeilad. Gosodwyd un ar wal y festri a'r llall yn y capel i bawb eu gweld. Heb os, maen nhw'n ychwanegiad trawiadol i'r capel ac yn rhoi cyfle i ni fyfyrio ynghylch eu neges.

# Codi llais – *parhad*

cymorth tramor i gymunedau ansefydlog yn cyfrannu at wneud ein byd yn fwy bregus pheryglus.

Addawodd y pleidiau Ceidwadol a Llafur ill dau yn eu maniffestos etholiad cyffredinol 2024 i adfer gwariant datblygu i 0.7% o'r Incwm Gwladol Crynswth, gyda Llafur yn benodol yn addo 'adennill arweinyddiaeth fyd-eang Prydain ym maes datblygu' Mae'r gostyngiad i 0.3% yn cynrychioli cefn''n llwyr ar yr ymrwymiadau hynny.

Mewn cyfnod pan mae dioddefaint y tlodion yn ein byd yn dal i waethygu, mae torri cymorth tramor yn benderfyniad cwbl afresymol. Mae'n gam i'r cyfeiriad anghywir, ac yn tanseilio'r gwerthoedd gorau. Mae'r llywodraeth, drwy wneud hyn, yn troi cefn ar yr ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi eithafol, newid hinsawdd ac ansefydlogrwydd byd-eang.

Fel AS [...] lle mae'n heglwys ni yn cwrdd i addoli, gofynnwn i chi alw ar y llywodraeth i wrthdroi'r toriadau trychinebus hyn i'r gyllideb ddatblygu.

Yr eiddoch yn gywir,

# Gair gan Aled

Daw Luc â ni at holl graidd ein Cristnogaeth ac at yr her fawr i ni yn ein bywydau i faddau. Cafodd nifer ohonom yn ddiweddar y cyfle i weld drama wych yn eglwys San Silin am Corrie ten Boom. Roedd Corrie yn un a wynebodd yr her honno mewn modd uniongyrchol iawn, gan ddod yn, *Tramp for the Lord* yn ei geiriau hi ei hun yn ddiweddarach.



Roedd ei theulu o wneuthurwyr clociau yn Haarlem ger Amsterdam wedi llochesu Iddewon yn sgil yr erlid didostur a fu arnynt. Ond fe yrrwyd y teulu ten Boom o'r herwydd i wersyll crynhoi Ravensbrück.

Llwyddodd Corrie i oroesi'r rhyfel ac roedd hi'n annerch mewn cyfarfod eglwysig ym Munich yn 1947 pan ddaeth yr her i faddau yn uniongyrchol iawn i'w hwynebu. Fe adnabu yn y gynulleidfa y cyn-gard a fu'n gweinyddu artaith arni hi a'i theulu yn y gwersyll crynhoi, a daeth ati ar ddiwedd y cyfarfod i ofyn am faddeuant.

Doedd y sefyllfa ddim yn un hawdd ond cafodd nerth gan Dduw i estyn ei llaw tuag ato. Wrth wneud mae hi'n disgrifio'r cerrynt o gynhesrwydd a ddaeth i lawr ei braich at y lle yr oedd y ddwy law yn uno. Fe gafodd y nerth i ddweud wrth y gard, 'Dwi'n maddau i ti, fy mrawd, gyda'm holl galon.' Mae hi'n nodi'n allweddol iawn na welodd enghraifft fwy teimladol o gariad Duw yn gweithio drwyddi ac ynddi.

**Gweddïwn:**

Dysga i ni mor felys yw maddeuant, a dalen newydd.

Cofiwn am eiriau bythgofiadwy'r diweddar Gordon Wilson o Enniskillen wedi marw ei annwyl ferch Marie mewn ffrwydrad. 'Dw i ddim yn dal dig, dydy siarad brwnt ddim yn mynd i ddod â Marie yn ôl ... does gen i ddim ateb, ond dwi'n gwybod fod yna gynllun.

Mae hyn yn rhan o gynllun mwy, ac mae Duw yn dda.'

Diolch am bobl sy'n gallu maddau i'w gelynion yn gyhoeddus, a helpa ni i adeiladu pontydd yn lle eu chwalu, ysgwyd llaw yn lle ymateb yn ymosodol. Amen.

**Aled Lewis Evans**
(allan o *Shalom*, Rhif 510, Mawrth ac Ebrill 2025)

# Crefydd a/neu wleidyddiaeth?

Nid oes gwadu bod pennod newydd wedi agor eto yn dilyn seremoni urddo Donald J. Trump yn arlywydd Unol Daleithiau America ar 20 Ionawr eleni. Cafodd fuddugoliaeth ysgubol yn yr etholiad am yr arlywyddiaeth yn Nhachwedd 2024 a does neb yn amau dilysrwydd democrataidd ei fuddugoliaeth. Gwnaeth pobl America yn gwbl amlwg beth oedd dymuniad mwyafrif poblogaeth America sef cael Trump fel eu harlywydd am y pedair blynedd nesaf. Ac mae Trump ei hun a'i gefnogwyr wedi gorfoleddu yn ei fuddugoliaeth. Yng nghysgod ei fuddugoliaeth mae Trump wedi gwneud honiadau niferus gan addo pethau mawr i bobl y wlad a'r taleithiau.

### Mab Darogan?

Wrth gael ei urddo fe ddywedodd yn ddi-flewyn-ar-dafod ei fod yn credu, yn dilyn ymdrech i'w ddienyddio a'i ladd pan saethwyd trwy ei glust, ei fod yn credu fod Duw wedi arbed ei fywyd i bwrpas, sef, er mwyn gwneud America yn fawr eto, yn




unol â'i slogan tros y blynyddoedd diwethaf (MAGA: Make America Great Again). Ac fe wnaeth honni, os nad proffwydo, y byddai ei dymor yn oes aur yn hanes y wlad a'i phobl. Ie, fel y gwyddom does dim owns o wyleidd-dra yn perthyn i'r dyn (ie, dyn). Pwy y mae'n meddwl ydyw? *Pontifex Maximus*. A yw'n gweld ei hun fel meseia hirddisgwyliedig? Yn hen ysbryd imperialaeth mae'n rhoi'r argraff ei fod am ormesu fel Ymerawdwyr Rhufain cynt, ac fel hen ymerodraethau'r gorllewin fynnai feddiannu tiriogaethau a chyfoeth gwledydd tramor, pell ac agos. A wyf yn gor-ddweud? Wel, onid yw wedi dweud y carai gymryd yn ôl gamlas Panama i fod dan reolaeth America, ac ail enwi gwlff Mecsico yn gwlff America, meddiannu o bosibl yr Ynys Werdd, siŵr o fod er mwyn ecsploetio ei hadnoddau, nid dim ond er mwyn cael a hawlio llwybr hwylio cyflym rhwng America ac Ewrop; cael gwladwriaeth Canada wedyn i fod yn dalaith rhif 51 gan berthyn i Unol Daleithiau America, a chodi trethi yn ddiymwad ar fewnforion o wledydd tramor i'r Amerig. Wfft i ideoleg y farchnad rydd! 'America first.' I ba raddau y mae'r dyn am i ni ei gyfrif o ddifrif sydd gwestiwn.

### Dynoliaeth newydd

Ond does dim rhyfedd bod y byd yn gyfan wedi teimlo'n anesmwyth, ac y byddwn ar

*parhad ar dudalen 7*

Yr Adran Gydenwadol

MAWRTH 13 2025 RHIF 211

# Cytûn (Eglwysi ynghyd yng Nghymru) yn penodi Swyddog Polisi newydd

Mae'n bleser gan Cytûn gyhoeddi fod Iestyn Davies wedi'i benodi i olynu'r Parch. Gethin Rhys fel Swyddog Polisi Cytûn. Bydd Gethin ac Iestyn yn cydweithio hyd ddiwedd mis Ebrill, pryd y bydd Gethin yn ymddeol wedi cyfnod o ddeng mlynedd fel Swyddog Polisi a dwy flynedd cyn hynny, rhwng 2003 a 2005, yn gweithio i'r mudiad.

Yn frodor o Ferthyr Tudful ac wedi ei fagu yn rhengoedd Byddin yr Iachawdwriaeth, un o aelodau Cytûn, daw Iestyn i'r swydd yn dilyn gyrfa lwyddiannus yn gweithio i nifer o fudiadau ym meysydd iechyd, addysg a pholisi economaidd a busnes.

Dywedodd Dr Cynan Llwyd, Ysgrifennydd Cyffredinol Cytûn:

"Mae'n bleser gallu croesawu Iestyn i'r tîm. Mae'n unigolyn profiadol ym maes polisi a chysylltiadau cyhoeddus a chanddo egni heintus a gweledigaeth gyffrous ar gyfer y rôl. Dyma gyfnod chwerw felys wrth gwrs wrth i ni ffarwelio ag aelod gwerthfawr o'r tîm yn Gethin. Edrychaf ymlaen at gydweithio ag Iestyn i ddatblygu gwaith Cytûn wrth i ni bartneru â'n haelodau yn eu cenhadaeth a chydweithio â phartneriaid allanol er mwyn cyfoethogi bywyd cyhoeddus Cymru."

Wrth ymuno â Cytun, dywedodd Iestyn, "Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at ymuno â'r tîm a pharhau â'r gwaith a wnaed gan Gethin i hysbysu a chynrychioli ein haelodau yng Nghymru. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r staff ac i'r ymddiriedolwyr am eu croeso cynnes."



## Llythyr Agored: Dyfodol Diwinyddiaeth a'r Dyniaethau ym Mhrifysgolion Cymru

Rydym yn ysgrifennu ar ran Ymddiriedolwyr Cytûn (Eglwysi ynghyd yng Nghymru) i fynegi ein gofid dwys am y toriadau posibl i ddysgu ac ymchwil ym maes Diwinyddiaeth yn benodol a'r Dyniaethau yn gyffredinol ym mhrifysgolion Cymru.

Rydym yn ategu pryderon a fynegwyd gan ddau aelod blaenllaw o aelod eglwysi Cytûn ar raglen *Bwrw Golwg*. Dywedodd yr Athro D. Densil Morgan, 'Mae'n ymddangos na fydd yr un adran ddiwinyddol mewn prifysgol yng Nghymru o gwbl – mae'r peth yn drasiedi. Lle roedd gyda chi Gaerdydd, Llanbed a Bangor yn cynnig holl rychwant diwinyddiaeth, astudiaethau Beiblaidd, astudiaethau athrawiaethol, hanes yr Eglwys, athroniaeth crefydd – mae'r adrannau i bob pwrpas wedi cau.' Meddai Dr Rosa Hunt, 'Mae'r datblygiad hwn yn ofnadwy i bwnc academaidd Astudiaethau Crefyddol yng Nghymru. O ystyried rôl crefydd wrth lunio Cymru a'n byd amrywiol heddiw, byddai'n "drychineb" colli'r maes astudio pwysig hwn i fyfyrwyr ac academyddion fel ei gilydd.'

Credwn yn gryf fod dealltwriaeth dda am grefydd yn hynod bwysig o ran meithrin cyd-ddealltwriaeth o'r lefel leol i'r lefel fyd-eang, ac mae astudiaethau academaidd o holl feysydd diwinyddiaeth ac astudiaethau crefyddol yn hanfodol i greu'r fath ddealltwriaeth.

Ond mae ein gofid yn lledu y tu hwnt i faes diwinyddiaeth a chrefydd, oherwydd y toriadau yn y Dyniaethau eraill. Mae dysgu'r pynciau hyn – Hanes, Hanes ac Ieithoedd yr Henfyd, Ieithoedd Modern a Cherddoriaeth – yn greiddiol i alluogi Cymru i gymryd ei lle o fewn diwylliant Ewrop. Byddai colli dysgu'r pynciau hyn trwy gyfrwng y Gymraeg yn andwyo ein hunaniaeth ac yn gwanhau gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddefnyddio'r iaith ym meysydd dysg, yn ogystal â cholli'r llif angenrheidiol o fyfyrwyr cymwysedig allai ddysgu'r Dyniaethau ac Ieithoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Gofynnwn, felly, i chi ailystyried gweithredu toriadau o'r fath.

Hoffem hefyd dderbyn gwybodaeth am ddau fater penodol:

1. A fydd trefn y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn galluogi sicrhau dysgu ac ymchwil trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr holl bynciau hyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol?
2. Beth fydd y trefniadau ar gyfer y llyfrgelloedd ac adnoddau eang sydd wedi eu casglu yn y prifysgolion? A ddiogelir y llyfrau, papurau a chreiriau, mewn modd sydd yn galluogi myfyrwyr ac ymchwilwyr y dyfodol i'w cyrchu a'u defnyddio, ac os felly ymhle a sut?

Byddem yn falch o dderbyn eich ymateb, ac os yn bosibl cwrdd â chi i drafod ymhellach.

Yr eiddoch yn gywir,


Jennifer Hurd (Parch. Ddr)
Cadeirydd

Cynan Llwyd (Dr)
Ysgrifennydd Cyffredinol

# Gwahoddiad i lansiad cyfrol newydd *Hoff Adnodau'r Cymry*

Ddydd Llun, 24 Mawrth, bydd cyfrol newydd yn cael ei lansio sy'n rhannu hoff adnodau 60 o Gymry adnabyddus, a'u rhesymau dros ddewis yr adnodau hynny. Casglwyd y cyfraniadau gan Beti-Wyn James, a diolch iddi am ei gwaith yn golygu'r gyfrol.

Meddai'r golygydd: 'Braint o'r mwyaf oedd derbyn y gwahoddiad i gasglu cyfraniadau ar gyfer y gyfrol hon. Cefais gryn flas ar gasglu cyfraniadau gwerthfawr ar gyfer cyfrol *Yr Alwad* ychydig flynyddoedd yn ôl. Hoffwn ddiolch o waelod calon i bob cyfrannwr sydd wedi ymateb i'm gwahoddiad ac wedi rhoi amser nid yn unig i ddewis adnod ond hefyd i weu profiadau personol – o'r dwys i'r digri – i mewn i'r ysgrifau hyn. Y canlyniad yw bod gennym yma glytwaith diddorol a gwerthfawr o brofiadau yn seiliedig ar adnodau o'r Beibl.




'Cyfeiria sawl cyfrannwr at yr arfer o "ddweud adnod" yn yr oedfa pan oeddent yn blant. Roedd hi'n ben tost i ambell riant ar nos Sadwrn wrth geisio cael eu plentyn i gofio'r adnod, ac yn fwy o ben tost i ambell blentyn i'w chofio wedi cyrraedd y sedd fawr y bore canlynol! Ond rwy'n siŵr y gwnewch gytuno bod yr adnodau a ddysgwyd gennym pan oeddem yn blant wedi aros yn y cof, a phrofiadau bywyd dan arweiniad Duw wedi goleuo ein meddwl a'n calon i ddeall yr adnodau yn well wrth i ni dyfu'n hŷn. Diolch am gyfoeth Gair Duw ac am ei fod yn dal i'n cyffroi a'n hysbrydoli.'

Isod ceir dewis Beti-Wyn ei hun:

'Aros gyda ni, oherwydd y mae hi'n nosi.' (Luc 24:29)

Un o blant Cwm Tawe yw Beti-Wyn. Bu'n gweinidogaethu yn y Tabernacl, y Barri, am rai blynyddoedd cyn symud i'r gorllewin, a derbyn galwad i fod yn weinidog ar ofalaeth y Priordy, Cana a Bancyfelin. Eleni, ffurfiwyd gofalaeth newydd o dan ei gweinidogaeth, sef Gofalaeth Caerfyrddin a Bancyfelin. Mae'n Gyn-lywydd Undeb yr Annibynwyr, yn awdur ac yn gyfrannwr cyson i raglenni radio a theledu. Enillodd radd Meistr o Goleg y Brifysgol Caerdydd a Choleg Bedyddwyr Cymru am ei hymchwil i effaith Covid 19 ar fywyd yr eglwysi. Mae'n darlledu oedfa ddigidol bob bore Sul ers y cyfnod clo. Hi yw Arwyddfardd presennol Gorsedd Cymru. Mae'n fam i Elin a Sara.

**Ei hoff adnod**

Mae'r hanes am y ddau yn cerdded y ffordd o Jerwsalem i Emaus, i mi, gyda'r prydferthaf o storïau yn y Testament Newydd. Daw'r Crist Atgyfodedig at y ddau a oedd yn cerdded y ffordd, a hwythau heb ei 'nabod. Ond wrth agosáu at y pentref, meddent wrth Iesu, gan bwyso arno, 'Aros gyda ni, oherwydd y mae hi'n nosi.' Canlyniad yr 'aros' gyda nhw oedd iddynt ddod i 'nabod Iesu dros bryd o fwyd, wrth iddo dorri bara. Na, nid corff mewn bedd oedd Iesu, ond Gwaredwr Atgyfodedig a buddugoliaethus.

Y mae rhai yn honni eu bod wedi cerdded ffordd Damascus, ac wedi dod i adnabyddiaeth o Iesu mewn moment ddramatig fel Saul gynt. Ond cofiwn fod modd cerdded ffordd Emaus yn ogystal â ffordd Damascus. Ffordd Emaus yw'r ffordd a gerddais i, ac rwy'n gobeithio fy mod yn dal i'w cherdded heddiw wrth geisio byw yn agos at Iesu a dod i adnabyddiaeth ddyfnach ohono o ddydd i ddydd.

Oherwydd fy hoffter o'r stori hon, rwyf wedi cael fy nenu at eraill sy'n rhannu'r un hoffter â mi am yr hanes. Mae'r stori hon wedi ysbrydoli nid yn unig pregethwyr ond hefyd beirdd, cerddorion ac artistiaid. Ymhlith yr artistiaid mae Rembrandt a beintiodd lun o Iesu yn torri'r bara yn Emaus.

Bu'r sefyllfa echrydus yn Wcráin yn ofid mawr i bawb dros y ddwy flynedd diwethaf. Rydym wedi bod yn ymateb i'r sefyllfa druenus honno mewn gweddi, ac mewn ffyrdd ymarferol hefyd yn ôl ein gallu. Wrth fodio drwy dudalennau'r we un diwrnod, fe sylweddolais fod un ffordd arall bosib o gefnogi pobl Wcráin, a hynny oedd drwy brynu eu gwaith celf. Llawenydd i mi oedd dod ar draws gwaith yr artist Ivanka Demchuk o Wcráin. Llwyddais i brynu darn o'i gwaith, sef darlun yn dehongli yn ei ffordd ei hun stori'r ddau yn cerdded i Emaus ac yn cwrdd â Iesu. Mae iddo le parchus ar wal ein 'stafell fwyta. Mae'r darlun yn dweud dau beth wrthyf: yn gyntaf, bod angen cofio'n gyson yn ein gweddïau am Wcráin, Gaza a mannau eraill lle mae rhyfel ofnadwy ac yn ail, i gofio mai Crist byw a buddugoliaethus yw'n Crist ni.

Rheswm arall am y dewis o adnod yw oherwydd bod gen i glip fideo ar fy nghyfrifiadur o'n merched ni, Elin a Sara, yn canu emyn yn rhan o gôr merched Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin ar lan bedd Hedd Wyn. Mae'r datganiad digyfeiliant o'r emyn yn wefreiddiol ac mae'n dal i yrru ias i lawr fy nghefn bob tro y byddaf yn gwrando arno. Yr emyn? 'O aros gyda mi, y mae'n hwyrhau', cyfiethiad Lewis Edwards o'r emyn godidog 'Abide with me'.

Gwahodd Iesu i'w cartref a wnaeth y disgyblion wedi cyrraedd Emaus gan ei bod yn nosi. Gwahodd Iesu i gartref ein calonnau a wna'r Cristion, yn y sicrwydd y bydd ef yn oleuni i ni pan ddaw profiadau o dywyllwch i'n hamgylchynu. Y daith o Jerwsalem i Emaus. Ond nid ffordd i'w thrafod yw hon, ond ffordd i'w cherdded.

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 16 Mawrth, am 6.45yh – Dur a Môr**
Nia Roberts fydd yn edrych ymlaen at Brifwyl yr Urdd 2025, yng nghwmni'r gof Angharad Pearce Jones a'r cerddor D Huw Rees. Daw'r emynau o Eglwys Dewi Sant, Castell-nedd. A chawn berfformiad gan Gôr Unedig Ysgolion Tawe Nedd ac Afan.

BBC radio cymru

*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 16 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau â chysylltiad ag India yng nghwmni Nan Powell-Davies

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 16 Mawrth, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Siwan Jones, Wrecsam

# Undod Cristnogol mewn Byd sy’n Chwalu

WYTHNOS 2

## Eglwysi ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon – myfyrdodau ar gyfer y Grawys

**Yr Eglwys fel iachäwr clwyfedig**

**Darlleniad**
Ioan 20: 24–9

**Myfyrdod**

Eglwys oedd yn cael ei herlid oedd yr Eglwys a ddaeth ynghyd yn Nicea, ac roedd creithiau corfforol erledigaeth i’w gweld ar rai oedd yn bresennol yno. Yn ddi-os, roedd y lloches a gynigiwyd gan yr Ymerawdwr yn rhyddhad mawr ac yn cael ei chofleidio fel cefnogaeth i genhadaeth yr Eglwys i ledaenu’r Efengyl. Yn y canrifoedd yn dilyn Cyngor Nicea byddai’r Eglwys honno a gawsai ei herlid yn gwneud camgymeriadau difrifol. Byddai Cristnogion yn erlid Cristnogion eraill, yn ogystal â phobl o hunaniaeth a chrefyddau eraill. Ar adegau, byddai’r Eglwys yn cefnogi a hyd yn oed yn cymryd rhan weithredol yn y gamdriniaeth a wneid gan ymerodraethau a phwerau gwladychol, mewn caethwasiaeth a lladd a dulliau eraill o gam-drin hawliau dynol ar raddfa eang.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae’r lleisiau sy’n herio’r rhain a mathau eraill o gamdriniaeth a gyflawnir yn erbyn plant a phobl fregus mewn cyd-destunau eglwysig wedi mynd yn uwch ac yn gryfach. Mae awdurdod moesol yr Eglwys i siarad yn y man cyhoeddus wedi cael ei gwestiynu ac mae hyder llawer o Gristnogion wrth siarad am eu ffydd a’i rhannu y tu allan i’r Eglwys wedi ei ysgwyd.

Wrth iddi fyfyrio ar ei gorffennol, y presennol a’r dyfodol, yng nghyd-destun cofio Nicea 1700 o flynyddoedd yn ôl, mae gan yr Eglwys heddiw gyfle i ailadeiladu hyder ac adfer hygrededd drwy ddangos ei chlwyfau, gan gydnabod, yn wahanol i glwyfau Crist, fod llawer o’r clwyfau hyn wedi cael eu hachosi ganddi hi ei hun.

Os byddwn yn pendroni dros y penodau tywyll hyn yn ein gorffennol, mae rhai’n ofni y byddant yn taflu cysgod dros lawenydd yr Efengyl, gan ein cadw’n sownd mewn poen ac anobaith. Yn ein profiad eciwmenaidd, mae llawer ohonom wedi cael cyfle i archwilio’r ffyrdd hynny yr ydym ni, fel Cristnogion o wahanol enwadau, cefndiroedd a thraddodiadau, wedi brifo ein gilydd. Mewn nifer o achosion mae’r ddeialog hon wedi bod yn drawsnewidiol, gan arwain at gymod, iachâd ac adnewyddu perthynas. Mae yna wybodaeth yma y gellir ei rhannu ag eraill i’n hysbrydoli a’n hannog i fynd yn ddyfnach i’r gwaith hwn o hunanfyfyrio beirniadol.

Beth allwn ni ei ddysgu o barodrwydd Crist yn narlleniad heddiw o’r Ysgrythur i ddangos ei glwyfau, gyda gostyngeiddrwydd a dealltwriaeth, ond gan alw hefyd ar ei ddilynwyr i gael ffydd?

**Cwestiynau ar gyfer myfyrio a thrafod**

- Ydych chi’n meddwl y gallai’r Eglwys fod yn fwy parod i ddangos ei gwendid wrth roi arweiniad? Sut y gellid amlygu hyn?
- A yw siarad am y ffyrdd y mae Cristnogion o wahanol enwadau wedi brifo ei gilydd wedi bod yn rhan o’ch profiad eciwmenaidd chi? Os felly, a yw’r sgyrsiau hyn yn ddefnyddiol? Os nad ydyw, ydych chi’n teimlo bod y ddeialog hon yn angenrheidiol yn eich cyd-destun chi?
- Pa fath o heriau ydych chi’n dod ar eu traws wrth siarad am eich ffydd y tu allan i’r Eglwys?




**Gweithredu**

- Fel rhan o’ch paratoadau ar gyfer y Grawys, allech chi dreulio peth amser yn myfyrio mewn gweddi ar y clwyfau sydd angen eu hiacháu yn yr Eglwys?
- Rhestrwch rai o’r bobl sy’n dod i’r cof wrth feddwl am y rhai sydd wedi cael eu niweidio neu eu brifo gan yr Eglwys. Pa fath o negeseuon neu weithredoedd gan yr Eglwys heddiw allai gyfrannu at wella’u clwyfau?
- Meddyliwch am brofiad lle buoch chi’n dyst i gymod. Gallai hyn fod yn rhywbeth personol neu ar lefel gymunedol. Nodwch rai o’r ffactorau a wnaeth gymodi yn bosibl yn yr achos hwn. Trafodwch sut y gellid cymhwyso hyn i heriau cymodi sy’n wynebu’r Eglwys heddiw.

**Gweddi**

Dduw trugarog,
Edrych yn dosturiol ar dy Eglwys glwyfedig.
Rho i ni’r dewrder i ymddiheuro
am y camweddau a gyflawnwyd, a
ganiatawyd neu a anwybyddwyd gan yr Eglwys.
Helpa ni i brofi rhyddid maddeuant,
ac i greu mannau lle gallwn gysylltu
â phobl a anafwyd gan yr Eglwys.
Helpa ni i osod esiampl well i’r gymdeithas ehangach
gyda ffydd, gonestrwydd ac atebolrwydd
gan wybod efallai y bydd angen i bobl ofyn inni
ddangos ein clwyfau
er mwyn iddynt gredu yn dy addewid
o gymodi, adnewyddu ac adfer perthynas.
Amen.




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Crefydd a/neu wleidyddiaeth? – *parhad*

bigau'r drain wrth drafod polisi tramor yr Unol Daleithiau yn ystod y blynyddoedd nesaf. Ac mae hyn yn gofyn y cwestiwn a ddylid pellhau'r berthynas neu'r ddealltwriaeth am berthynas crefydd a gwleidyddiaeth? Rwy'n llawn sylweddoli a chytuno gyda sylw enwog yr Archesgob Desmond Tutu, 'Pan fod pobl yn dweud nad yw crefydd a gwleidyddiaeth yn cymysgu rwy'n synnu (rhyfeddu) pa Feibl maent yn ei ddarllen.' Diolch am y gweinidog i Grist fu'n wladweinydd dewr i'w bobl yn Ne Affrica ac yn esiampl i ni gyd o gofio ei argyhoeddiadau a'i frwdfrydedd heintus.


A gaiff Trump ei gofio'r un mor annwyl gydag amser? Byddai rhai yn meddwl am ei garisma, fy hunan rwy'n meddwl mwy am ei ddelwedd *macho* a hunanol. Ie hunanol. Gwneud America yn fawr yw ei weledigaeth. Dim ots os bydd yn damsiel ar eraill er mwyn gwireddu ei fwriadau.

Ac mae ei weledigaeth yn gyfeiliornus, yn ddiwinyddol, os nad yn boliticaidd hefyd. 'Carodd Duw y byd cymaint' ac meddai Iesu, 'Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr Efengyl i'r greadigaeth i gyd,' gan feddwl am les ac amgylchfyd pawb drwy'r byd. Nid oes dim yn blwyfol nac yn genedlaetholdeb afiach yng ngweledigaeth Crist, yr un sy'n tynnu i lawr furiau sy'n cadw pobl ar wahân, yr un sydd am ddod â heddwch rhyngwladol i'r byd gan greu yn ôl yr Apostol Paul 'un ddynoliaeth newydd' yng Nghrist Iesu.

### Pwy yw ein Harglwydd?

Pam rwy'n eich atgoffa chi o'r pethau hyn? Wel am mai cred Cristnogion ydy fod Iesu Grist yn waredwr i'r holl fyd, ac nid dim ond i un genedl yn fwy neu ar waethaf cenhedlodd eraill. Felly mae'n bwysig ein bod fel Cristnogion a deiliaid yr Eglwys Gristnogol, i ba draddodiad Cristnogol bynnag y perthynwn iddo, yn gofyn eto, ar bwy rydym am wrando ac yn beth neu ym mhwy rydym am roi ein ffydd a'n cred er ein hiachawdwriaeth? Mewn arlywydd, mewn gwladwriaeth, plaid wleidyddol, ideoleg neu yng Nghrist Iesu fel ein Gwaredwr?

### Pumed e




Rwyf wedi cael blas mawr yn ddiweddar mewn darllen cyfrol A. M. Hunter sef *The Fifth Evangelist*, ac i'r awdur y pumed efengylydd yw yr Apostol Paul. Braidd na ddywedwn fod Donald Trump yn meddwl am ei hun fel y pumed efengylydd! Yn y ym mhennod 13 o gyfrol Hunt mae'n trafod 'Gwleidyddiaeth Crist' (The Politics of Christ). Mae'n agor y bennod gan ddyfynnu neb llai na Edmund Burke, y gŵr sy'n enwog am ddweud, os ydym am i ddrygioni lwyddo, y cyfan sydd angen i Gristnogion ei wneud yw gwneud dim. Ie mae'n angenrheidiol codi llais – Gaza, Wcráin. Dyma'r dyfyniad a'r datganiad o eiddo Burke yng nghyfrol Hunter:

> Politics should not be heard in the pulpit. There the only voice which should be heard is the healing voice of Christian charity.


(Gwleidyddiaeth bleidiol mae'n ei olygu wrth *politics* yma.) Mae Hunter yn cyfiawnhau ei ddefnydd o sylw Burke yng nghynnwys y bennod ac mae'n cloi'r bennod gyda datganiad yr un mor ddeifiol:

> Christians should ever hold fast the divine dimension of their good news, lest in their zeal for the transformation of this passing world, they rob men of their bridge to eternity.

Crist yn unig sydd yn oruchaf (*transcendental*) a thragwyddol. Nid yw Trump yn ddwyfol, er fel petai ei fod bron yn hoffi rhoi'r argraff ei fod!

'Iesu Grist, yr un ydyw ddoe a heddiw ac am byth.' Iesu Grist yw'r bont rhwng y ddynoliaeth a Duw fel bod dynion a merched yn cael byw ar lun a delw Duw a mwynhau heddwch ei deyrnas yn dragwyddol (*aiōnios*) ar y ddaear ac yn y nef. Y tro nesaf cawn edrych ar le gwleidyddiaeth ym mywyd yr Iesu, ac fel y gwelai Iesu ei hun uwchlaw gwleidyddiaeth dymhorol (*transient*) y byd a'r bywyd hwn.

**Emyr Gwyn Evans**




## Penderfyniadau

**Undeb yr Annibynwyr Cymraeg**

## Y Cyfarfodydd Blynyddol 2025

Cyfundeb Llŷn ac Eifionydd
Canolfan Nant Gwrtheyrn
25–27 Mehefin

Rhaid i rybudd o bob penderfyniad sydd i'w gyflwyno yn y gynhadledd eleni gyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol erbyn 9 Mai, fan pellaf, wedi ei lofnodi gan ei gynigydd a'i eilydd.

# Barn Annibynnol

## Grym a gostyngeiddrwydd

Profiad anghyffyrddus oedd gwylio'r ffrae ddiweddar rhwng Donald J. Trump a Volodymyr Zelenskyy ar gadeiriau melynion y Tŷ Gwyn. Yn wir, profiad chwithig oedd clywed Arlywydd yr Unol Daleithiau a'i ddirprwy, J. D. Vance, yn codi'u lleisiau gan fynnu fod yn rhaid i'w gwestai o Wcráin fod yn fwy 'diolchgar' am gymorth America. Lletchwith hefyd oedd gwylio Zelenskyy yn chwilio am eiriau i ymateb i'r ymosodiad cyhoeddus hwn a oedd yn cael ei ddarlledu'n fyw i bedwar ban y byd. Yn ystod y dyddiau diwethaf, mae'r ffrae wedi mynd o ddrwg i waeth wrth i'r Unol Daleithiau atal ei chymorth milwrol i Wcráin. Yn ddi-os, mae'r ffrae hon yn ein gwneud ni'n bryderus wrth i rai ddarogan fod rhyfel byd-eang ar y gorwel.



### Grym heb ostyngeiddrwydd

Ond pam fod y ffrae hon rhwng Trump a Zelenskyy yn ein gwneud i deimlo mor anghyffyrddus? Mewn gair, am ei bod hi'n esiampl o rym *heb* ostyngeiddrwydd. Yn llywodraeth Trump yn ogystal â chyfundrefn Putin, grym sy'n cael y bri. Maent wedi sbarduno diwylliant gwleidyddol sy'n seiliedig ar yr egwyddor mai'r hyn sydd bwysicaf yw bod yn gryf, yn nerthol, yn bwerus. Yn y fath ddiwylliant, gwendid yn hytrach na nodwedd yw bod yn ostyngedig a gwylaidd. Nid yw'n syndod felly i Arlywydd America ddatgan yn ddiweddar mae ei nod yw 'creu'r diwylliant mwyaf rhydd, mwyaf datblygedig a'r un cryfaf sydd erioed wedi bod ar wyneb y ddaear.'

Ond rhywbeth anghyffyrddus yw grym heb ostyngeiddrwydd. Rhywbeth sy'n gwneud i ni boeni. Wedi'r cyfan, sut allwn ni fod yn sicr y bydd grym yn cael ei ddefnyddio er daioni os nad yw'r sawl sy'n rymus hefyd yn ostyngedig? Sut allwn ni wybod y bydd y rhai cryf yn defnyddio eu grym er lles os nad ydynt yn abl i dosturio â'r gwan?

### Grym gyda gostyngeiddrwydd

Newyddion da'r Beibl yw'r gwirionedd nad yw Duw yn debyg i arweinwyr y byd sydd ohoni. Mae Duw'n wahanol mewn dwy ffordd syfrdanol.

Yn gyntaf, mae Duw yn llawer mwy grymus nag unrhyw arlywydd dynol. Chwarae plant yw awdurdod Trump a Putin o'i gymharu ag awdurdod Duw. Er bod gan arlywyddion America a Rwsia yr awdurdod i orchymyn pethau mawrion, Duw'n unig yw'r Creawdwr. Fe sydd wedi creu popeth, fe sy'n cynnal popeth ac mae popeth yn y bydysawd – pob gronyn o'r cyfan – yn eiddo iddo. Fel y dywed 1 Cronicl 29:11:

> Ti, ARGLWYDD, y perthyn mawredd, gallu, gogoniant, ysblander a mawrhydi; oherwydd y mae popeth yn y nefoedd ac ar y ddaear yn eiddo i ti; ti, ARGLWYDD, biau'r deyrnas, ac fe'th ddyrchafwyd yn ben ar y cwbl.

Yn ail, yn wahanol i arlywyddion y byd, mae Duw hefyd yn frenin gostyngedig a diymhongar. Er ei fod yn holl bwerus, daeth Duw i'r byd yn ostyngedig ym mherson ei Fab, Iesu Grist. Er ei fod yn rheoli'r sêr a'r planedau, dyma Iesu'n gadael ei ogoniant yn y nef gan ddod yn berson dynol o gig a gwaed. Gwelsom ostyngeiddrwydd Iesu yn amlwg wrth iddo farw ar y groes gan wynebu'r pris yr ydym yn ei haeddu am ein pechodau. Yn wir, dyma'r union beth y clywn amdano yn Philipiaid 2:6–8:

> Er ei fod ef ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i'w gipio, ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol. O'i gael ar ddull dyn, fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes.

Os yw grym *heb* ostyngeiddrwydd yn ein gwneud yn anghyffyrddus, rhywbeth cysurus yw grym *gyda* gostyngeiddrwydd. Er ei rym, ei bŵer a'i awdurdod diddiwedd, mae Iesu hefyd yn gallu cydymdeimlo, tosturio ac uniaethu gyda ni yn ein gwendid a'n hangen gan ei fod mor ostyngedig.

Felly, wrth i ni bryderu am yr hyn a ddaw yn wyneb y rhyfel yn Wcráin, newyddion da yw gwybod nad yw'r dyfodol yn nwylo Trump nac yn nwylo Putin. Mae'r dyfodol yn nwylo Iesu Grist. Mewn geiriau eraill, mae'r dyfodol yn nwylo un sy'n holl bwerus ac sy'n gwbl ostyngedig. Yn ei bŵer, mae'n abl i ateb ein gweddïau; yn ei ostyngeiddrwydd, mae'n abl i dosturio ac i gydymdeimlo gyda ni. Yn wir, y grym a'r gostyngeiddrwydd hwn yw'r union beth mae'n byd cythryblus ni ei angen heddiw.

**Gwilym Tudur**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

# Rhannu adnoddau

Mae ailgylchu ac ailddefnyddio cyfarpar wedi dod yn gyfarwydd iawn yn enwedig yma yng Nghymru. Mae hon yn ffordd Gristnogol o rannu haelioni Duw. Fel cenedl rydym ar y blaen i'r mwyafrif o genhedloedd y byd gyda thargedau ailgylchu sbwriel.

Ar hyd y blynyddoedd mae Duw wedi rhoi'n hael i'w Eglwys. Felly oni fyddai'n syniad gwych i hysbysu beth sydd ei angen arnom neu beth sydd ar gael gennym yn *Y Tyst* er mwyn ailddefnyddio'r adnoddau gwerthfawr hyn? Trueni os ydynt yn mynd rhwng y cŵn a'r brain pan allai eglwys arall eu defnyddio. Efallai gellid casglu'r eitemau mân (llyfrau, offer cymundeb ac ati) at ei gilydd mewn un lleoliad, yn hytrach na'u gweld yn eitemau oeraidd ar fyrddau mewn ocsiwn.



### Tybed fedrwch chi helpu?

Ar hyn o bryd y mae eglwys Gwyddgrug angen dau beth yn benodol sef, gwydrau cymundeb a byrddau ysgafn ar gyfer y festri. Tybed a oes gan rai o ddarllenwyr *Y Tyst* y naill beth neu'r llall i'w sbario? A oes rhai mewn capel sydd newydd gau? Os gallwch helpu cysylltwch gyda Chris neu Eirian trwy: eirian.bolton@btinternet.com

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

# Perl o stori



Pan ddechreuais bregethu cofiaf fy ngweinidog, sef y Parchg J. W. Maddocks, yn dweud wrthyf, 'Cymera arddull Iesu Grist a chofia ddefnyddio hanesion, profiad ac *illustrations*.'


Roedd Elin Ifans , Nant yr Eos, yn bencampwraig ar wneud menyn. Yr oedd yn ennill yn rheolaidd yn y *Royal Welsh* ac roedd galw mawr iddi feirniadu mewn sioeau eraill. Bob dydd Iau fe wnaethai siwrnai i'r pentref cyfagos, ar ôl gwneud cytundeb gyda Wil John, perchennog Empire Stores, i werthu'r menyn. Roedd Wil John yn edmygwr mawr o Elin, fel cyfeilyddes a thrysorydd capel bach, y Winllan. Un diwrnod ar ôl mynd i'r siop sylwodd nad oedd tymer siriol iawn ar Wil John. I ddweud y gwir roedd yn reit siarp gydag Elin.

'Rydw i wedi synnu atoch, Elin Ifans a chithau'n gapelwraig selog, eich bod wedi ceisio fy nhwyllo,' meddai. 'Roedd pob un o'r pacedi menyn yn brin o ddwy owns, cywilydd i chi, rydw i wedi siomi yn fawr.' Bu'r hen wraig a'i phen yn ei phlu am dipyn ond siriolodd gan esbonio wrth Wil John beth oedd wedi digwydd.

'Rydw i wedi cofio beth ddigwyddodd nawr,' meddai., 'Wrth ddidoli yr wythnos ddiwethaf, methais yn lân a ffeindio y clepyn pwys y byddaf yn defnyddio yn y bwtri acw a'r unig beth oedd gen i oedd yn cyfateb oedd eich pwys siwgr chi. A *hwnnw* oedd gen i ym mhen arall i'r glorian cofiwch.'

'Na fernwch fel na'ch barner,' medd y Bregeth ar y Mynydd.

**Elwyn**










*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*